# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

**Pleidleisiau a Thrafodion (217)**

**Dyddiad: Dydd Mercher 29 Medi 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Gofynnwyd y cwestiwn.

**.........................................**

**13.33**
### Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl.

**.........................................**

**14.18**
### Eitem 3: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1, 2 a 4 yn ôl.

**.........................................**

**14.55**
### Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Wahaniaethu yn erbyn Pobl sy'n Byw gyda HIV gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd

**NDM4540 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ei Ymchwiliad i Wahaniaethu yn erbyn Pobl sy'n Byw gyda HIV gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2010.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

**15.30**
### Eitem 5: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad i Ddŵr Mewndirol

**NDM4541 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad i Ddŵr Mewndirol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2010.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**……………………………………**

## Eitem 6: Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Greu Swyddi yn yr Economi Werdd – Gohiriwyd tan 13 Hydref 2010

**……………………………………**

**16.24**

## Eitem 7: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4542 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes mwy eang er mwyn annog menter yn y sector busnesau bach.

Defnyddiwch yr hyperddolen ganlynol i weld Crynodeb o'r Rhyddhad Ardrethi sydd ar gael ar gyfer Busnesau Bach yng Nghymru 2010:

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/nondomesticrates/ratesrelief/?skip=1&lang=cy

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 28 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r gwelliant a wnaed i gynllun rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer busnesau bach yng Nghymru, a fydd yn golygu bod mwy na hanner ein busnesau yn talu ardrethi sylweddol is, os o gwbl, am y 12 mis o 1 Hydref 2010 ac;

2. Yn cydnabod y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu ystyried gwneud mwy o welliannau i’r cynllun rhyddhad ardrethi os yw Llywodraeth y DU yn barod i sicrhau cyllid tecach i Gymru, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Holtham.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 15 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd system o ariannu drwy gynyddrannau treth, i alluogi awdurdodau lleol i fenthyg yn erbyn incwm yn y dyfodol o ardrethi busnes, yn helpu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf i hybu mentergarwch yn y sector busnesau bach.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r gwelliant a wnaed i gynllun rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer busnesau bach yng Nghymru, a fydd yn golygu bod mwy na hanner ein busnesau yn talu ardrethi sylweddol is, os o gwbl, am y 12 mis o 1 Hydref 2010 ac;

2. Yn cydnabod y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu ystyried gwneud mwy o welliannau i’r cynllun rhyddhad ardrethi os yw Llywodraeth y DU yn barod i sicrhau cyllid tecach i Gymru, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Holtham.

3. Yn credu y bydd system o ariannu drwy gynyddrannau treth, i alluogi awdurdodau lleol i fenthyg yn erbyn incwm yn y dyfodol o ardrethi busnes, yn helpu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf i hybu mentergarwch yn y sector busnesau bach.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 5 | 11 | 43 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

.........................................

**17.17**
**Cyfnod pleidleisio**

.........................................

**17.18**
**Eitem 8: Dadl fer**

**NDM4539 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**

Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Abertawe – dewis y bobl?

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.41.**

.........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 5 Hydref 2010**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**